Pwyllgor Craffu
Polisi ac Adnoddau

ADRODDIAD BLYNYDDOL 2018/19

Cynnwys

Adran	Eitem	Tudalen
	Rhagair gan y Cadeirydd	2
1	Cyflwyniad	3
2	Trosolwg o Waith y Pwyllgor 2018/19	3
3	Gweithgarwch Craffu Arall	7
4	Heriau	7
5	Gwaith yn y Dyfodol	7
6	Cefnogi'r Swyddogaeth Graffu	8
7	Presenoldeb	9

Rhagair gan y Cadeirydd

Fel Cadeirydd y Pwyllgor hwn, mae'n bleser gennyf gyflwyno Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Craffu - Polisi ac Adnoddau ar gyfer blwyddyn y cyngor 2018/19. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb cynhwysfawr o'r gwaith a wnaed gan y Pwyllgor yn ystod y cyfnod hwn ac yn rhoi cyfle i fyfyrio ar y gwaith hwnnw.

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi parhau i fod yn gyfnod heriol i'r Cyngor a chredaf fod y Pwyllgor hwn wedi parhau i chwarae rôl adeiladol wrth graffu ar berfformiad a chyfrannu at bolisïau a phenderfyniadau allweddol y Cyngor. Hoffwn ddiolch hefyd i holl aelodau'r Pwyllgor am eu cyfraniadau a'u hymroddiad yn ystod 2018/19.

Bu'r Pwyllgor yn trafod ac yn craffu ar amrywiaeth eang o bynciau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Roedd y rhain yn cynnwys adroddiadau monitro safonol a rheolaidd yn ogystal â pholisïau a strategaethau newydd a gyflwynwyd gan y Cyngor Sir.

Bydd y flwyddyn sydd i ddod yn sicr yn heriol ond rwy'n hyderus y byddwn yn parhau i roi pwyslais ar wella gwasanaethau mewn modd effeithiol ac effeithlon. Yn sgil Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sefydlwyd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Pwyllgor hwn sydd wedi'i ddynodi i graffu ar y gwaith hwn. Nod y Ddeddf yw gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Yn ystod 2019/20 bydd y Pwyllgor yn parhau i ddatblygu ei rôl i sicrhau bod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin yn atebol yn ddemocrataidd.

Edrychaf ymlaen unwaith eto at yr her o gadeirio'r Pwyllgor hwn, a chyda chymorth fy Is-gadeirydd a gweddill y Pwyllgor gobeithio y cawn effaith gadarnhaol ar y canlyniadau ar gyfer trigolion Sir Gaerfyrddin. Rydym eisoes wedi cael rhai trafodaethau difyr ynghylch yr eitemau ar gyfer rhaglen waith 2019/20 a bydd y Pwyllgor yn parhau i weithio'n agos gydag uwch-reolwyr a staff y Cyngor i sicrhau y bydd y flwyddyn sydd i ddod yn un gynhyrchiol.

Fel Cadeirydd y Pwyllgor, cadeiriaf hefyd Fforwm y Cadeiryddion a'r Is-gadeiryddion Craffu, sy'n trafod gwelliannau i'r swyddogaeth graffu i'w hystyried gan Weithgor Adolygu'r Cyfansoddiad y Cyngor ac yn gweithredu fel fforwm ar gyfer rhannu a dosbarthu arferion da o ran craffu. Rydym wedi canolbwyntio eleni ar effeithiolrwydd rhag-gyfarfodydd craffu, nodi hyfforddiant craffu ar gyfer swyddogion ac aelodau, arferion da'r pwyllgor craffu, cyfarfodydd di-bapur a hyrwyddo ap Mod.Gov. Roedd yr Hyfforddiant Hanfodion Craffu a ddarparwyd gan y Ganolfan Craffu Cyhoeddus ar 29 Mawrth 2019 yn llawn gwybodaeth ac yn darparu enghreifftiau ar gyfer cryfhau ac ymateb i heriau yn awr ac yn y dyfodol.

Y Cynghorydd Giles Morgan
Cadeirydd y Pwyllgor Craffu - Polisi ac Adnoddau

1. Cyflwyniad

Mae Erthygl 6.2 o Gyfansoddiad y Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl bwyllgorau craffu "*baratoi adroddiad blynyddol sy'n egluro gweithgareddau'r Pwyllgor dros y flwyddyn flaenorol.*"

Prif nod yr adroddiad yw pwysleisio'r gwaith sydd wedi'i wneud gan y Pwyllgor Craffu - Polisi ac Adnoddau yn ystod 2018/19. Mae'n amlinellu gwaith posibl y Pwyllgor yn y dyfodol. Mae'n bosibl hefyd y bydd y ddogfen yn hwyluso trafodaethau am eitemau eraill a allai gael eu cynnwys mewn rhaglenni gwaith yn y dyfodol.

Cadeirir y Pwyllgor gan y Cynghorydd Giles Morgan ac mae'n cynnwys 13 o Aelodau Etholedig. Darperir cymorth i'r Panel gan y Tîm Gwasanaethau Democrataidd a swyddogion eraill y Cyngor pan fo angen.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o waith y Pwyllgor Craffu - Polisi ac Adnoddau yn ystod blwyddyn y cyngor 2018/19. Mae'n caniatáu i Aelodau ystyried llwyddiannau'r flwyddyn a nodi beth a weithiodd yn dda ac ymhle y gellid gwneud gwelliannau. Mae'r dadansoddiad hwn yn hanfodol i ddatblygu'r broses graffu.

2. Trosolwg o waith y Pwyllgor 2018/19

2.1 Nifer y Cyfarfodydd

Cynhaliodd y Pwyllgor Craffu 8 cyfarfod yn ystod blwyddyn ddinesig 2018/19.

2.2 Y Rhaglen Waith

Mae'r Pwyllgor Craffu yn datblygu ei Flaenraglen Waith ei hun, ac, ar y cyfan, roedd agendâu'r cyfarfodydd yn cyfateb i'r rheiny a amlinellwyd yn y Flaenraglen Waith, a gadarnhawyd gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 14 Mehefin 2018.

Roedd y Flaenraglen Waith yn seiliedig yn bennaf ar y meysydd allweddol a nodwyd fel amcanion yn Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor 2018-23 ynghyd ag eitemau safonol megis adroddiadau monitro perfformiad a chyllideb, adroddiadau monitro cynlluniau gweithredu a cheisiadau penodol gan y pwyllgor craffu ei hun. Gofynnwyd hefyd am adroddiadau ychwanegol gan y Pwyllgor Craffu yn ystod y flwyddyn a newidiwyd y Flaenraglen Waith yn unol â hynny.

Drwy ddatblygu'r cysyniad o Flaenraglen Waith a'r broses ar gyfer cytuno arni, mae modd i bob pwyllgor craffu benderfynu ar ei agenda waith ei hun. Mae manteision y dull hwn o weithio wedi arwain at wella'r drafodaeth a'r cyfraniadau yn ystod cyfarfodydd y pwyllgorau craffu.

Roedd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi lle blaenllaw i gynaliadwyedd hirdymor o ran y modd y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu dylunio a'u cyflwyno ac mae'n rhoi pwyslais ar gyrff cyhoeddus i weithio mewn partneriaeth â'i gilydd a'r cyhoedd er mwyn atal a mynd i'r afael â phroblemau. Sefydlodd y Ddeddf Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer pob Awdurdod Lleol yng Nghymru.
Er mwyn sicrhau bod y byrddau gwasanaethau cyhoeddus yn atebol yn ddemocrataidd, roedd gofyniad ar Gynghorau i ddynodi pwyllgor trosolwg a chraffu i graffu ar waith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Fel Pwyllgor Craffu dynodedig y Cyngor i'r perwyl hwn, mae'r Pwyllgor Craffu - Polisi ac Adnoddau wedi parhau â'i rôl o ran craffu ar waith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'i ddal i gyfrif ynghylch ei berfformiad o ran cyflawni amcanion y Cynllun Llesiant Lleol. Yn hyn o beth cafodd y Pwyllgor gofnodion cyfarfodydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn rheolaidd.

Bydd yr adrannau canlynol yn rhoi cipolwg ar brif feysydd gwaith y Pwyllgor.

2.3 Adroddiadau Monitro Perfformiad

Un o rolau pennaf y pwyllgorau craffu yw monitro perfformiad y gwasanaethau a'r swyddogaethau a ddaw o fewn ei gylch gwaith. Gwnânt y gwaith hwn yn bennaf drwy ystyried adroddiadau monitro perfformiad ac adroddiadau monitro cynlluniau gweithredu amrywiol. Mae adroddiad monitro perfformiad yn rhoi darlun cytbwys o berfformiad ar draws y meysydd gwasanaeth perthnasol. Cafodd y Pwyllgor Craffu - Polisi ac Adnoddau yr adroddiadau hyn yn ei gyfarfodydd ym mis Hydref 2018 ac ym mis Mawrth 2019. Roedd yr adroddiadau'n canolbwyntio ar ddangosyddion tanberfformio yn bennaf.

Fel rhan o'i rôl rheoli perfformiad, mae'r Pwyllgor yn cael y wybodaeth berthnasol o strategaethau a chynlluniau allweddol y Cyngor. Bu'r Pwyllgor yn ystyried Adroddiad Blynyddol y Cyngor (2017/18). Adroddiadau blynyddol oedd un o'r prif gyfleoedd i adolygu, monitro ac adfyfyrio ac roedd hefyd yn gyfle i'r Awdurdod gofnodi'r gwaith parhaus y mae'n ei wneud i gyflawni'i ddyletswyddau cyffredinol a phenodol. Nododd hefyd ei bod yn ofynnol i'r Cyngor, yn ôl y gyfraith, gyhoeddi Adroddiad Blynyddol am berfformiad y gorffennol erbyn diwedd mis Hydref bob blwyddyn.

<u>Canlyniad:</u>
Cymeradwyodd y Cyngor Sir Adroddiad Blynyddol y Cyngor ar gyfer 2017/18.

2.4 Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf

Cafodd y Pwyllgor adroddiadau chwarterol am y cyllidebau cyfalaf a refeniw adrannol a chorfforaethol. Galluogai'r adroddiadau hyn yr aelodau i fonitro'r gwariant ym mhob maes a'r cynnydd a wnaed o ran unrhyw waith cyfalaf.
Yn ogystal â monitro'r gyllideb bresennol, ymgynghorwyd â'r Pwyllgor hefyd ynghylch Strategaeth Cyllideb Refeniw 2019/20 i 2021/22. Roedd yr adroddiad yn rhoi'r cynigion

presennol i'r Pwyllgor ynghylch y Gyllideb Refeniw ar gyfer 2019/20, ynghyd â ffigurau dangosol ar gyfer blynyddoedd ariannol 2020/21 a 2021/22.
Derbyniodd yr Aelodau'r adroddiad a chymeradwyo'r Crynhoad Taliadau.
Ymgynghorwyd â'r Pwyllgor ynghylch Rhaglen Gyfalaf 5 Mlynedd 2019/20 - 2023/24.
Nodwyd nad oedd cynlluniau arfaethedig Llynnoedd Delta yn y Pentref Llesiant a Gwyddor Bywyd yn rhan o'r rhaglen gyfalaf.

Canlyniad:
Cymeradwyodd y Cyngor Sir y Strategaeth Cyllideb Refeniw a'r Rhaglen Gyfalaf 5 Mlynedd.

2.5 Adroddiad Chwarterol ynghylch Rheoli'r Trysorlys a Dangosyddion Darbodaeth
Cafodd y Pwyllgor y newyddion diweddaraf chwarterol a oedd yn nodi'r gweithgareddau a oedd yn rhan o Swyddogaeth Rheoli'r Trysorlys, yn unol â'r Polisi a'r Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a gymeradwywyd gan y Cyngor Sir ar 21 Chwefror 2018.

2.6 Adroddiadau Monitro Perfformiad Adrannol a Chorfforaethol 2018/19
Un o rolau pennaf y pwyllgorau craffu yw monitro perfformiad y gwasanaethau a'r swyddogaethau a ddaw o fewn ei gylch gwaith. Gwnânt y gwaith hwn yn bennaf drwy ystyried adroddiadau monitro perfformiad chwe-misol ac adroddiadau monitro cynlluniau gweithredu amrywiol. Mae adroddiad monitro perfformiad yn rhoi darlun cytbwys o berfformiad ar draws y meysydd gwasanaeth perthnasol. Bu'r Pwyllgor yn ystyried yr adroddiadau perfformiad ar gyfer ei gylch gwaith yn ei gyfarfodydd ym mis Hydref 2018 ac ym mis Mawrth 2019. Yn ystod ei gyfarfod ym mis Mawrth 2018, rhoddwyd sicrwydd i'r Pwyllgor bod y rhaglen gweithio ystwyth yn mynd rhagddo'n dda

2.7 Monitro Absenoldeb Salwch
Ym mis Mehefin 2018 bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad ynghylch Monitro Absenoldeb Salwch diwedd blwyddyn 2017/18 a oedd yn manylu ar ddata absenoldeb salwch adrannol ar gyfer blwyddyn ariannol 2017/18 ynghyd â thablau meincnodi a safleoedd perfformiad. Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys dadansoddiad o brif achosion absenoldeb er mwyn galluogi'r Pwyllgor i graffu ar berfformiad y Cyngor mewn perthynas â rheoli presenoldeb. Un o ganlyniadau'r adroddiad oedd trefnu sesiwn ddatblygu arall ar gyfer y Pwyllgor Polisi ac Adnoddau ynghylch monitro rheolaeth salwch er mwyn rhoi gwybod i'r aelodau am y math o ddata salwch sy'n cael ei ddosbarthu i'r timau rheoli adrannol.
Ym mis Rhagfyr 2018 bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad chwe-misol [Chwarter 2] ynghylch Monitro Absenoldeb Salwch ar gyfer 2018/19 a oedd yn dangos gostyngiad parhaus o gymharu â Chwarter 2 2017/18. Un o ganlyniadau'r adroddiad oedd trefnu sesiwn ddatblygu er mwyn rhoi gwybod i'r aelodau am y mentrau sy'n cael eu cynnal i helpu i leihau absenoldeb salwch.

2.8 Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin

Ym mis Mehefin 2018 a mis Chwefror 2019, bu i'r Pwyllgor, fel y pwyllgor craffu dynodedig a benodwyd i graffu ar waith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, ystyried cofnodion cyfarfodydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin. Mae Aelodau'r Pwyllgor Craffu wedi cael cyfle eto i fynychu Cyfarfodydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus fel arsylwyr.

2.9 Adroddiad Blynyddol 2017/18 ar yr Iaith Gymraeg

Ym mis Gorffennaf 2018 bu'r Pwyllgor yn ystyried yr Adroddiad Blynyddol o ran yr iaith Gymraeg a chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg yn ystod 2017-18. Roedd yr Adroddiad wedi cael ei lunio er mwyn cydymffurfio â threfniadau monitro Comisiynydd y Gymraeg.

2.10 Y Strategaeth Trawsnewid Digidol - Adroddiad Blynyddol 2018

Ym mis Gorffennaf 2018 bu i'r Pwyllgor ystyried a chymeradwyo Adroddiad Blynyddol 2018 y Strategaeth Trawsnewid Digidol.

2.11 Adroddiad Blynyddol Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2017-18

Ym mis Gorffennaf 2018, bu'r Pwyllgor yn ystyried Adroddiad Blynyddol Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2017-18, a oedd yn manylu ar y modd yr oedd y Cyngor wedi gweithredu ei Gynllun Cydraddoldeb Strategol ac wedi cyflawni ei ddyletswyddau dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a'r Dyletswyddau Penodol i Gymru.

2.12 Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol a Rhaglen Swyddfeydd - Diweddariad

Ym mis Ionawr 2019 cafodd y Pwyllgor ddiweddariad ar y cynnydd mewn perthynas â'r camau oedd wedi'u cynnwys yng Nghynllun Rheoli Asedau Corfforaethol 2016-2019 a'r Rhaglen Swyddfeydd. Yn ogystal roedd yr adroddiad yn darparu amlinelliad o'r canlyniadau a ragwelwyd drwy weithio ystwyth a oedd yn dod yn nodwedd sylweddol o'r Strategaeth Swyddfeydd.

2.13 Polisi Diogelwch Gwybodaeth

Ym mis Hydref 2018 bu i'r Pwyllgor ystyried a chymeradwyo Polisi Diogelwch Gwybodaeth arfaethedig a oedd yn cynnwys elfennau allweddol y Polisi Rheoli Mynediad a'r Polisi Hawlfreintiau, Dyluniadau a Phatentau.

2.14 Adroddiad Blynyddol Cwynion a Chanmoliaeth 2017/18

Ym mis Hydref 2018 cafodd y Pwyllgor Adroddiad Blynyddol Cwynion a Chanmoliaeth 2017/18.

2.15 Adroddiad Blynyddol y Rhaglen Trawsnewid i Wneud Cynnydd (TIC) 2017/18 a Chynllun Busnes 2018/19-2020/21

Ym mis Rhagfyr 2018 cafodd y Pwyllgor 'Adroddiad Blynyddol y Rhaglen Trawsnewid i Wneud Cynnydd (TIC) 2017/18 a Chynllun Busnes 2018/19-2020/21'.

2.16 – Pentref Gwyddor Bywyd a Llesiant Llanelli
Cafodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch Pentref Gwyddor Bywyd a Llesiant Llanelli arfaethedig yn ei gyfarfodydd ym mis Chwefror a mis Mawrth 2019 ac yn dilyn hynny cafwyd sesiwn briffio i roi diweddariad i'r holl aelodau ynghylch y Fargen Ddinesig.

3. Gweithgarwch Craffu Arall

3.1 Gorchwyl a Gorffen
Ni wnaeth y Pwyllgor gynnal adolygiad gorchwyl a gorffen yn ystod 2018/19.

3.2 Ymweliadau Safle
Nid oedd y Pwyllgor wedi cynnal unrhyw ymweliadau safle yn ystod 2018/19.

3.3 Sesiynau Datblygu
Cynhaliwyd y sesiynau datblygu/seminarau canlynol i'r holl aelodau yn ystod 2018/19, a chafodd aelodau'r Pwyllgor eu gwahodd iddynt:

- Y Rhaglen Trawsnewid i Wneud Cynnydd - 23 Hydref 2018;
- Hyfforddiant Aelod-fentoriaid - 8 Tachwedd 2018;
- Gosodiadau ar Sail Dewis - 14 Tachwedd 2018;
- Hyfforddiant i'r Aelodau - Gwella eich sgiliau gwneud penderfyniadau - 28 Tachwedd 2018;
- Hyfforddiant Craffu / Y Ganolfan Craffu Cyhoeddus - 29 Mawrth 2019.

Yn ogystal, cafwyd sawl seminar ynghylch cyllideb yr adran.

Yn ogystal ymwelodd y Pwyllgor â'r uned iechyd galwedigaethol ac yn dilyn hynny cafwyd sesiwn anffurfiol am adnoddau dynol.

4. Heriau
Wrth gyflawni ei waith mae'r Pwyllgor wedi wynebu sawl her, gan gynnwys eitemau heb gael eu hadrodd yn unol â'r Flaenraglen Waith, lefel y manylder yn yr adroddiadau - weithiau gormod o fanylion, weithiau rhy ychydig.

5. Gwaith yn y Dyfodol
Mae'r Pwyllgor wedi gwneud cynnydd sylweddol a bydd yn parhau i ganolbwyntio ar bynciau lle bydd cyfraniadau'r Aelodau'n arwain at ganlyniadau cadarnhaol i ysgogi

gwelliannau yn y gwasanaeth. Bydd gwaith y Pwyllgor ar gyfer y dyfodol yn cael ei ystyried fel rhan o sesiwn cynllunio'r Flaenrhaglen Waith. Yn ogystal, bydd y Flaenraglen Waith yn parhau i gael ei monitro yn ystod y flwyddyn.

6. Cefnogi'r Swyddogaeth Graffu

Mae'r cymorth a roddir i swyddogaeth graffu Cyngor Sir Caerfyrddin yn cael ei ddarparu gan yr Uned Gwasanaethau Democrataidd yn yr Is-adran Gweinyddiaeth a'r Gyfraith yn Adran y Prif Weithredwr.

Mae'r cymorth a roddir i'r swyddogaeth graffu yn cynnwys y canlynol:

- Darparu cymorth a chyngor cyfansoddiadol i Bwyllgorau Craffu'r Cyngor ac i aelodau'r Pwyllgorau hynny yn ogystal â llunio cofnodion eu cyfarfodydd a sicrhau bod materion sy'n codi o'r cyfarfodydd hynny yn cael eu gweithredu
- Rhoi cymorth a chyngor mewn perthynas â swyddogaethau Pwyllgorau Craffu'r Cyngor i aelodau gweithredol ac anweithredol y Cyngor a'i swyddogion;
- Rheoli datblygiad strategol y swyddogaeth Graffu yn Sir Gaerfyrddin trwy ymwneud â rhwydweithiau a mentrau Craffu cenedlaethol a rhanbarthol, cefnogi Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Fforwm Craffu, a Fforwm Bwrdd Gweithredol y Cadeiryddion a'r Is-gadeiryddion Craffu;
- Cynghori a chefnogi gweithredu gofynion
  Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 wrth i'r canllawiau gael eu cyhoeddi;
- Rheoli cydgysylltu a datblygu blaenraglenni gwaith Craffu
  ar y cyd ag aelodau Craffu;
- Rheoli a chydlynu gwaith adolygu'r swyddogaeth Graffu, gan gynnwys gweithredu grwpiau gorchwyl a gorffen ym maes craffu, awdurdodi adroddiadau ar y cyd â'r grwpiau, a chynorthwyo i weithredu a monitro'r adolygiadau a gwblhawyd;
- Rheoli rhaglen datblygu aelodau'r Pwyllgor Craffu
- Anfon yr agendâu ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgor Craffu o leiaf 4 diwrnod gwaith cyn y cyfarfod.

I gael rhagor o wybodaeth am graffu yn Sir Gaerfyrddin, gan gynnwys rhaglenni gwaith, adroddiadau gorchwyl a gorffen ac adroddiadau blynyddol, ewch i wefan y Cyngor Sir: www.sirgar.llyw.cymru/craffu

I gysylltu â'r Uned Gwasanaethau Democrataidd, ffoniwch 01267 224028 neu anfonwch neges e-bost at craffu@sirgar.gov.uk

7. Presenoldeb

Mae presenoldeb Aelodau'r Pwyllgor Craffu - Polisi ac Adnoddau yn ystod y flwyddyn 2018/19 yn cael ei ddangos yn y tabl isod. Cynhaliwyd cyfanswm o 8 cyfarfod rhwng mis Mehefin 2018 a mis Ebrill 2019.

Aelod y Pwyllgor Craffu	Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd allan o 8 posibl	%
Y Cyng. F. Akhtar - hyd at 20/3/19	2	25%
Y Cyng. S.M. Allen	6	75%
Y Cyng. K. Broom	7	87.5%
Y Cyng. D. Cundy - o 26/4/19	1 [allan o 1]	100%
Y Cyng. H. Davies	8	100%
Y Cyng. T.A.J. Davies	7	87.5%
Y Cyng. J. Edmunds - o 26/4/19	1 [allan o 1]	100%
Y Cyng. D.C. Evans- hyd at 20/3/19	3	37.5%
Y Cyng. J. K. Howell	8	100%
Y Cyng. G.H. John	8	100%
Y Cyng. A.C. Jones	6	75%
Y Cyng. K. Madge	7	87.5%
Y Cyng. A.G. Morgan	8	100%
Y Cyng. J. G. Prosser	5	62.5%
Y Cyng. D.E. Williams	8	100%
Dirprwyon	**Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd**	
Y Cyng. D. Cundy- hyd at 20/3/19	5	
Y Cyng. J. James	1	
Y Cyng. D. Jones	1	
Y Cyng. H.I. Jones	1	
Y Cyng. K. Lloyd	1	

Y Cyng. A. McPherson	1
Y Cyng. H. Shepardson	1
Y Cyng. E.G. Thomas	1
Y Cyng. D. Williams	1
Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol	**Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd**
Y Cyng. C. Campbell	1
Y Cyng. David Jenkins	5
Y Cyng. M. Stephens	3

8. Rhestr Termau

CIPFA - Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth
PSB – y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
FWP - Blaenraglen Waith
TIC - Trawsnewid i Wneud Cynnydd
WBFG - Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015